



Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

Competition Brief

Competition Title

Graphic Design

Competition Overview

Graphic designers have specialist skills to design and handle images and text across a wide range of contexts from print to digital and UX design, posters to motion graphics and animation.

In this competition, competitors have to develop and demonstrate a variety of creative and technical skills that are essential within the contemporary graphic communication and creative industries.

One Live competition will be held at a venue in Wales.

Entry Criteria

The competition is for those training for a career in Graphic Design and studying on vocational courses up to and including Level 3.

Please ensure that your entrants have the skills and competences to complete the task.

Entry capacity restrictions by organisation

Maximum of up to 3 entries per location plus maximum of 3 reserves can be registered in case of absence.

This is the maximum number of entries permitted by an organisation for this competition.

This is determined by 'location' and 'organisation'. 'Organisation' refers to the competitors' training provider/employer. 'Location' refers to a site where the competitor studies / is employed.

This competition is subject to a selection process please see passive submission information below. Where capacity is identified in a competition the reserve competitors may be invited to compete.

The decision will be made following a consultation between Skills Competition Wales and the competition lead after registration closes. All parties will be notified of any changes.

For further guidance on these capacities, [click here](#).

Brief

Passive Brief

Below are three companies who are looking for an exciting and unique rebrand. Please note these companies currently do not exist; they have been made up for the purpose of the competition.

Company Name	Details about the company
<i>Dewi's Delicatesen</i>	<p>Dewi's Delicatesen is a shop located in Swansea specialising in locally sourced food and beverage products. Their brand identity is strongly welsh and it sources locally made cheese, laverbread, bara brith, welsh honey, cockles, hams and a wider product range direct from the local producers. The business pride themselves on the locally sourced and sustainability aspects of their company. They use recyclable packaging and are conscious of using only electric vans to collect the products from the producers to ensure they adhere to their suitability pledge. The products are premium products compared to the supermarkets.</p> <p>The Challenge This brief challenges you to create an exciting new brand identity for Dewi's Delicatesen Your design solution must clearly communicate Dewi's Delicatesen's values through a memorable and recognisable visual identity that speaks to their target audience.</p> <p>Audience: People who care about food miles, sustainability and buying local. Tourists who visit Swansea.</p>
<i>Wildfox Resort</i>	<p>Wildfox Resort is a £250m holiday resort in Wales that will provide activities such as wild swimming, mountain biking, hiking, canyoning and bouldering. Spread across 318 acres, it will feature 570 forest lodges and 130 apartments and hotel rooms.</p> <p>Wildfox Resort, due to open in 2027, will also have a luxury spa and a wellbeing programme. Its offer is similar to that proposed by the planned Land and Lakes holiday resort at Penrhos Coastal Park, Holyhead, Anglesey and will be a direct rival to Centre Parcs. Located in the old coal mining area of the Afan Valley, seven miles North East of Port Talbot, it's the</p>

	<p>first resort developed by Wildfox Resorts. The new company is muscling into a market led by Center Parcs</p> <p>The Challenge: This brief challenges you to create an exciting new brand identity that sets apart Wildfox Resort from its competitors through an unforgettable brand image. Your design solution must clearly communicate Wildfox Resort’s unique selling point and appeal to their target audience.</p> <p>Audience: Families, couples, groups wanting to explore the great outdoors and have opportunities to relax and unwind enjoying the nature and scenery around them.</p>
<p><i>HIPPOP Repurposed</i></p>	<p>HIPPOP describe themselves as ‘the alternative beverage brand that’s bringing a little bit of rebellion to the gut health game. We’re not your average, run-of-the-mill, wellness brand. No, we’re the rebels, the troublemakers, the punk-rockers of the gut health world.’</p> <p>The Challenge: This brief challenges you to create a brand-new digital experience for HIPPOP. Your design solution must fuse together Prime’s existing visual identity with a new concept for an interactive experience (Mobile App, Website, or something else?) that connects fans with the HIPPOP brand. As part of this consider a new bottle and label design that is recyclable and fits with the brand ethos.</p> <p>Audience: In HIPPOP words ‘anybody who cares about what they put into their bodies. Whether you’re looking to improve your gut health, want to find a wonderful alternative to alcohol, or just need something healthier to satisfy those fizzy drink cravings’.</p>

Choose **one** of the above companies to create a strong, unique and modern brand image for the business.

Create an appropriate logo for the business which can be used on their website, social media and used to advertise the company. **Please submit designs for a logo and icon for Instagram, Facebook and a Facebook cover image.**

Consider how the logo has the potential to be used for animation and interaction. Supporting materials to demonstrate applications across different platforms or applications.

Deadline: Monday 9th December 2024

Submit: Supporting materials, logo, instagram icon, facebook icon and facebook cover image. Plus any animations you have created (not essential).

Please send **ALL** of your original photoshop files along with exported jpegs.

Share via wetransfer to: Rachel.Barrett@gowercollegeswansea.ac.uk

Marking criteria below for passive stage:

Criterion ID	Description	Max. Marks
A	Design Process	25
B	Presentation	15
C	Design Outcome	40
D	Technical Aspects and Output	20
	Total Marks	100

You will know if you have got through to the final by 5pm Friday 13th December, 2024.

Practice makes perfect! Test your knowledge using briefs from the past few years, [see this site](#).

Competition Day / Live Heat

The Skills Competitions Wales, Graphic Design, will be held on 7th February 2025, UWTSO, Dynevor Campus.

All competitors will have the use of an individual iMac with the Adobe Creative Suite and access to the internet. Wacom Graphics Tablets will also be available. All competitors will have access to pens, paper, drawing materials and a printer.

Previous competition briefs are available to view and download via the Skills Competition Wales website, please [click here](#) to access.

Competition Rules

- Competitors must work independently (without support from other students/tutors)
- Refrain from including offensive, sexual, political, controversial or inflammatory text or images.
- Mobile phones are to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.
- Competitors are solely responsible for the saving of their own files, especially in the unfortunate event of a computer malfunction. Instructions will be given as to where the files need to be saved.

For full terms and conditions of entry and competition rules [visit](#)

Marking and Assessment

Marking and judging of this competition will be done by a team of experts from Industry, Further Education or Training Provider, using a marking criteria and allocated marks to ensure consistency.

The marking criteria of the competition will reflect the relative significance of particular design form within the workflow, paying particular attention to the following areas.

Criterion ID	Description	Max. Marks
A	Design Process	25
B	Presentation	15
C	Design Outcome	40
D	Technical Aspects and Output	20
	Total Marks	100

Feedback and Recognition

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition.

No results or awards will be awarded on the day as marking will be quality assured.

All competitors will be issued with a Participation Certificate on the competition day. First, second, third and highly commended awards will be announced during the celebration event. The highly commended award recognises all competitors who have achieved above average. The celebration event will be held on Thursday 13th March 2025, further details will be communicated to competitors and their points of contact by email.

Marksheets will be available upon request via info@skillscompetitionwales.ac.uk to competitors after the celebration event

Competition Lead

Rachel Barret

Rachel.Barrett@gowercollegeswansea.ac.uk



Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

Briff y Gystadleuaeth

Teitl y Gystadleuaeth

Dylunio Graffig

Trosolwg o'r Gystadleuaeth

Yn y gystadleuaeth hon, mae'n rhaid i gystadleuwyr ddatblygu a dangos amrywiaeth o sgiliau creadigol a thechnegol sy'n hanfodol yn y diwydiannau cyfathrebu graffig a chreadigol cyfoes.

Mae gan ddylunwyr graffig sgiliau arbenigol i ddylunio a thrafod delweddu a thestun ar draws ystod eang o gyd-destunau o brint i ddylunio digidol ac UX, posterï i graffeg symud ac animeiddio.

Bydd un gystadleuaeth Fyw yn cael ei chynnal mewn lleoliad yng Nghymru.

Meini Prawf Ymgeisio

Mae'r gystadleuaeth ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gyrfa mewn Dylunio Graffig ac sy'n astudio ar gyrsiau galwedigaethol hyd at ac yn cynnwys Lefel 3. Sicrhewch fod gan eich ymgeiswyr y sgiliau a'r cymwyseddau i gyflawni'r dasg.

Cyfyngiadau capasiti mynediad yn ôl sefydliad

Gellir cofrestru uchafswm o hyd at 3 cofnod fesul lleoliad ynghyd â 3 cronfa wrth gefn rhag ofn y bydd absenoldeb

Dyma'r nifer uchaf o gynigion a ganiateir gan sefydliad ar gyfer y gystadleuaeth hon. Mae hyn yn cael ei bennu gan 'leoliad' a 'sefydliad'. Mae 'sefydliad' yn cyfeirio at ddarparwr hyfforddiant/cyflogwr y cystadleuwyr. Mae 'lleoliad' yn cyfeirio at safle lle mae'r cystadleuydd yn astudio / yn cael ei gyflogi.

Gall y gystadleuaeth hon fod yn destun proses ddethol os yw'r niferoedd cofrestru cystadleuwyr yn fwy na chapasiti'r lleoliad cynnal. Lle nodir bod capasiti ar gyfer y gystadleuaeth, gellir gwahodd cystadleuwyr wrth gefn i gystadlu.

Bydd y penderfyniad yn cael ei wneud yn dilyn ymgynghoriad rhwng Cystadleuaeth Sgiliau Cymru ac arweinydd y gystadleuaeth ar ôl i'r cofrestru gau. Bydd pob parti yn cael gwybod am unrhyw newidiadau.

I gael arweiniad pellach ar y galluoedd hyn, [cliciwch yma](#).

Briff

Briff Goddefol

Isod mae tri chwmini sy'n chwilio am ail-frandio cyffrous ac unigryw. Sylwch nad yw'r cwmnïau hyn yn bodoli ar hyn o bryd; maen nhw wedi cael eu dyfeisio at bwrpas y gystadleuaeth.

Enw'r Cwmni	Manylion am y cwmni
<i>Dewi's Delicatesen</i>	<p>Mae Delicatesen Dewi yn siop yn Abertawe sy'n arbenigo mewn cynhyrchion bwyd a diod o ffynonellau lleol. Mae hunaniaeth eu brand yn Gymreig iawn ac maen nhw'n defnyddio caws, bara brith, mêl Cymru, cocos, a ham a wneir yn lleol ac ystod ehangach o gynnyrch a ddaw'n uniongyrchol o'r cynhyrchwyr lleol. Mae'r busnes yn rhoi pwyslais mawr ar werthu cynnyrch lleol ac yn ymfalchio yng nghynaliadwyedd y cwmni. Maent yn defnyddio deunydd pacio ailgylchadwy ac yn ymwybodol o ddefnyddio faniau trydan yn unig i gasglu'r cynhyrchion gan y cynhyrchwyr i sicrhau eu bod yn cadw at eu haddewid i fod yn gynaliadwy. Mae'r cynhyrchion yn rhai premiwm o'u cymharu â chynnyrch archfarchnadoedd.</p> <p>Yr Her Mae'r briff hwn yn eich herio i greu hunaniaeth brand newydd gyffrous ar gyfer Delicatesen Dewi. Rhaid i'ch datrysiad dylunio gyfleu gwerthoedd Delicatesen Dewi yn glir trwy hunaniaeth gweledol cofiadwy ac adnabyddadwy sy'n hoelio sylw eu cynulleidfa darged.</p> <p>Cynulleidfa: Pobl sy'n poeni am filltiroedd bwyd, cynaliadwyedd a phrynu'n lleol. Twristiaid sy'n ymweld ag Abertawe.</p>
Cyrchfan Wildfox	<p>Mae Cyrchfan Wildfox yn gyrchfan wyliau £250m yng Nghymru a fydd yn darparu gweithgareddau megis nofio gwyllt, beicio mynydd, heicio, ceunanta a bowldro. Bydd gan y safle 318 erw 570 o gabanau coedwig a 130 o fflatiau ac ystafelloedd gwesty.</p> <p>Bydd gan Cyrchfan Wildfox, a fydd yn agor yn 2027, sba moethus hefyd a byddant yn cynnig rhaglen lesiant. Mae'r</p>

	<p>cynnig yn debyg i'r hyn a geir gan y gyrchfan wyliau arfaethedig Land and Lakes ym Mharc Arfordirol Penrhos, Caergybi, Ynys Môn a bydd yn wrthwynebydd uniongyrchol i Center Parcs. Wedi'i lleoli yn hen ardal lofaol Cwm Afan, saith milltir i'r gogledd-ddwyrain o Bort Talbot, dyma'r gyrchfan gyntaf i'w datblygu gan Cyrchfan Wildfox. Mae'r cwmni newydd yn camu i farchnad sy'n cael ei harwain gan Center Parcs.</p> <p>Yr Her: Mae'r briff hwn yn eich herio i greu brand newydd cyffrous ar gyfer Wildfox Resort. Bydd y brand yn ei wahaniaethu oddi wrth ei gystadleuwyr drwy gyfrwng delwedd brand sy'n fythgofiadwy. Mae'n rhaid i'ch dyluniad ddangos yn glir y pwynt gwerthu unigryw ar gyfer Wildfox Resort's fydd yn apelio at eu cynulleidfa darged.</p> <p>Cynulleidfa: Teuluoedd, parau, grwpiau sydd am fwynhau'r awyr agored a chael cyfle i ymlacio a dadflino, mwynhau natur a'r golygfeydd o'u cwmpas</p>
<p>HIPPOP Repurposed</p>	<p>Mae HIPPOP yn disgrifio eu hunain fel 'y brand diod amgen sy'n dod ag ychydig bach o wrthryfel i iechyd y perfedd. Nid ydym yn frand llesiant cyffredin. Na, ni yw gwrthryfelwyr, codwyr twrw, pync-rocwyr byd iechyd y perfedd.'</p> <p>Yr Her: Mae'r briff hwn yn eich herio i greu profiad digidol newydd ar gyfer HIPPOP. Rhaid i'ch datrysiad dylunio gyfuno hunaniaeth weledol bresennol HIPPOP â chysyniad newydd ar gyfer profiad rhyngweithiol (Ap Symudol, Gwefan, neu rywbeth arall?) fydd yn cysylltu'r cefnogwyr â'r prif frand. Fel rhan o hyn, ystyriwch ddyluniad potel a label newydd y gellir ei ailgylchu ac sy'n cyd-fynd ag ethos y brand.</p> <p>Cynulleidfa: Yng ngeiriau HIPPOP 'unrhyw un sy'n poeni am yr hyn maen nhw'n ei roi yn eu cyrff. P'un a ydych chi'n awyddus i wella iechyd eich perfedd, eisiau dod o hyd i rywbeth arall gwych yn lle alcohol, neu dim ond angen rhywbeth iachach i fodloni'r chwant am ddiod felys.'</p>

Dewiswch **un** o'r cwmnïau uchod i greu delwedd brand gref, unigryw a modern ar gyfer y busnes.

Crëwch logo priodol ar gyfer y busnes y gellir ei ddefnyddio ar eu gwefan, cyfryngau cymdeithasol a'i ddefnyddio i hysbysebu'r cwmni. **Cyflwynwch ddyluniadau ar gyfer logo ac eicon ar gyfer Instagram, Facebook a delwedd clawr Facebook.**

Ystyriwch sut mae gan y logo y potensial i gael ei ddefnyddio ar gyfer animeiddio a rhyngweithio. Deunyddiau ategol i arddangos rhaglenni ar draws gwahanol lwyfannau neu raglenni.

Dyddiad cau: Dydd Mawrth, Rhagfyr 9, 2024

Cyflwyno: Deunyddiau ategol, logo, eicon Instagram, eicon Facebook a delwedd clawr Facebook. Ynghyd ag unrhyw animeiddiadau rydych chi wedi'u creu (ddim yn hanfodol). Anfonwch **BOB UN** o'ch ffeiliau photoshop gwreiddiol ynghyd â jpegs wedi'u hallgludo.

Rhannwch trwy wetransfer to: Rachel.Barrett@gowercollegeswansea.ac.uk

Meini prawf marcio isod ar gyfer cam goddefol:

Cyfeirnod Maen Prawf	Disgrifiad	Uchafswm Marciau
A	Proses Ddylunio	25
B	Cyflwyniad	15
D	Canlyniad Dylunio	40
E	Agweddau Technegol ac Allbwn	20
	Cyfanswm Marciau	100

Byddwch yn gwybod a ydych wedi cyrraedd y rownd derfynol erbyn 5pm dydd Gwener 13 Rhagfyr, 2024.

Meistr pob gwaith yw ymarfer! Profwch eich gwybodaeth gan ddefnyddio briffiau o'r blynyddoedd diwethaf, [gweler y wefan hon](#).

Diwrnod y Gystadleuaeth / Rownd Fyw

Cynhelir Cystadleuaeth Sgiliau Cymru, Dylunio Graffig, ar 7 Chwefror 2025 - Campws Dinefwr PCYDDS.

Bydd pob cystadleuydd yn cael defnyddio iMac unigol gyda'r Adobe Creative Suite a mynediad i'r rhyngwrld. Bydd e-lechi graffeg Wacom hefyd ar gael. Bydd gan bob cystadleuydd fynediad at beniau, papur, deunyddiau tynnu llun ac argraffydd.

Mae briffiau cystadleuaeth flaenorol ar gael i'w gweld a'u llwytho o'r wefan Cystadleuaeth Sgiliau Cymru, [cliciwch yma](#) i gael mynediad iddynt.

Rheolau'r Gystadleuaeth

- Rhaid i gystadleuwyr weithio'n annibynnol (heb gefnogaeth myfyrwyr / tiwtoriaid eraill)
- Peidiwch â chynnwys testun neu ddelweddau tramgwyddus, rhywiol, gwleidyddol, dadleuol neu ymfflamychol.
- Bydd ffonau symudol yn cael eu diffodd yn ystod y cystadlu.
- Caniateir gwrando ar gerddoriaeth trwy glustffonau yn ystod y cystadlu.
- Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau yn ystod y cystadlu at banel beirniaid y gystadleuaeth.
- Ni ddylai cystadleuwyr gyfathrebu â chystadleuwyr eraill yn ystod y cystadlu. Cyfrifoldeb pob cystadleuydd yw cyrraedd mewn pryd ar gyfer pob sesiwn gystadlu. Ni chaniateir unrhyw amser ychwanegol os byddwch chi'n cyrraedd yn hwyr.
- Dylid rhoi gwybod i'r panel beirniaid am fethiant technegol eich offer ar unwaith. Rhoddir amser ychwanegol os yw'r nam y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.
- Ni fydd mynediad i'r Rhyngwrdd ar gael trwy gydol y gystadleuaeth.
- Mae cystadleuwyr yn llwyr gyfrifol am arbed eu ffeiliau eu hunain, yn enwedig os bydd cyfrifiadur yn anffodus yn camweithio. Rhoddir cyfarwyddiadau ynghylch ble mae angen cadw'r ffeiliau.
- Rhaid i'r cystadleuwyr beidio â gweithio, cyffwrdd â'r cyfrifiadur nac unrhyw ddeunydd arall sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth cyn y signal cychwyn, a rhaid iddyn nhw roi'r gorau i weithio a pheidio â chyffwrdd â'r cyfrifiadur nac unrhyw ddeunyddiau eraill sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth ar ôl y signal stopio. Mae hyn hefyd yn wir am y signalau egwyl ginio.

I gael y telerau ac amodau ymgeisio llawn a'r rheolau cystadlu, [ewch i](#)

Marcio ac Asesu

Bydd marcio a beirniadu'r gystadleuaeth hon yn cael ei wneud gan dîm o arbenigwyr o'r Diwydiant, Addysg Bellach neu Ddarparwr Hyfforddiant, gan ddefnyddio meini prawf marcio a marciau a ddyrennir i sicrhau cysondeb.

Bydd meini prawf marcio'r gystadleuaeth yn adlewyrchu arwyddocâd cymharol ffurf ddylunio benodol yn y llif gwaith, gan roi sylw arbennig i'r meysydd canlynol.

Cyfeirnod y Maen Prawf	Disgrifiad	Uchafswm Marciau
A	Proses Ddylunio	25
B	Cyflwyniad	15

C	Canlyniad Dylunio	40
D	Agweddau Technegol ac Allbwn	20
	Cyfanswm Marciau	100

Adborth a Chydnabyddiaeth

Bydd adborth llafar i Unigolion a Grwpiau yn cael ei roi ar ddiwedd y gystadleuaeth.

Ni fydd unrhyw ganlyniadau na dyfarniadau yn cael eu dyfarnu ar y diwrnod gan y bydd ansawdd y marcio yn cael ei sicrhau.

Bydd pob cystadleuydd yn cael Tystysgrif Cyfranogi ar ddiwrnod y gystadleuaeth. Bydd gwobrau cyntaf, ail, trydydd a chanmoliaeth uchel yn cael eu cyhoeddi yn ystod y digwyddiad dathlu. Mae'r wobr canmoliaeth uchel yn cydnabod yr holl gystadleuwyr sydd wedi cyflawni sgôr uwch na'r cyfartaledd. Cynhelir y digwyddiad dathlu ar Dydd Iau 13 Mawrth 2025 , bydd manylion pellach yn cael eu rhoi i gystadleuwyr a'u pwyntiau cyswllt trwy e-bost.

Bydd taflenni marciau ar gael ar gais drwy info@skillscompetitionwales.ac.uk i gystadleuwyr ar ôl y digwyddiad dathlu.

Arweinydd y Gystad leuaeth

Rachel Barret

Rachel.Barrett@gowercollegeswansea.ac.uk